CHYMDEITHAS Y CYMOD
YNG NGHYMRU

THE FELLOWSHIP OF
RECONCILIATION IN WALES

Hoffwn gael rhagor o wybodaeth am Gymdeithas y Cymod.

I would like further information about the Fellowship of Reconciliation in Wales.

Enw / Name

Cyfeiriad / Address

Ffôn / Phone

E-bost / E-mail

Anfoner at / Please send to:

Cymdeithas y Cymod,
d/o 3 Tai Minffordd, Rhostryfan,
Caernarfon, Gwynedd LL54 7NF.

Amcanion

Mae Cymdeithas y Cymod yn rhan o fudiad rhyngwladol o bobl sy'n credu mewn grym cariad a'r gwirionedd i greu cyfiawnder a chymuned drwy gysegru ei hunain i ddilyn ffordd o fyw di drais gweithredol fel modd i drawsnewid byd yn bersonol, gymdeithasol, economaidd, a gwleidyddol.

Statement

The Fellowship of Reconciliation is an international, spiritually-based movement composed of people who, from the basis of a belief in the power of love and truth to create justice and restore community, commit themselves to active non violence as a way of life and as a means of transformation - personal, social, economic and political.

Cymdeithas y Cymod

Fellowship of Reconciliation in Wales

Dilyn Ffordd Tangnefedd



www.cymdeithasycymod.org.uk

Elusen gofrestredig 700609

Gyda'n gilydd gweithiwn dros gyfiawnder a thangnefedd

"Pe byddai rhyfel yn creu heddwch fe ddylai'r byd fod yn baradwys heddychlon ers canrifoedd!

Ymladdwyd pob rhyfel drwy hanes er mwyn creu heddwch!

Ond, wedi miloedd o flynyddoedd o ryfela, mae'r byd yn y cyflwr mwyaf peryglus y bu ynddo erioed!

Y gred mewn rhyfel sy'n gyfrifol am hyn."

Beth yw canlyniadau rhyfel?

Gan fod y 'milwyr' yn cael eu trwytho i gredu eu bod yn well na'r 'gelyn' mae casineb a dirmyg yn arwain at gamdrîn. Canlyniad anochel y meddylfryd rhyfelgar yw'r camdrîn yn Irac.

Rhyfel a roes y cyfle i weithredu'r Holocost yn yr Almaen. Rhyfel a roes y cyfle i weithredu 'glanhad ethnig' yn yr hen lwgoslafia.

Mae tywallt 'gwaed gwirion' sef lladd y diniwed, yn ganlyniad anorfod i ryfel. Cyn dechrau rhyfela mae pawb yn gwybod fod y diniwed yn mynd i ddioddef, felly mae pob person sy'n cefnogi rhyfel yn uniongyrchol gyfrifol am y dioddefaint.

Rydym bawb yn talu'n hallt am ryfel yn gyson. Gwastreffir biliynau o bunnoedd o arian cyhoeddus ar ryfel. Gall un awyren rhyfel dalu am ysbyty newydd.

Gwaddol gwaethaf rhyfel yw'r casineb a'r awydd am ddial sy'n cael ei adael.

Y rhyfel presennol (pa ryfel bynnag ydyw) yw achos y rhyfel nesaf.

"Rhyfel yw'r broblem
nid yr ateb."

Oes yna ateb?

Oes ...

Newid ein ffordd o feddwl
Newid ein ffordd o fyw

Dilyn ffordd tangnefedd
Dilyn ffordd cyfiawnder
Dilyn ffordd y bywyd
Dilyn ffordd cariad
Dilyn ffordd maddeuant

"Myfi yw'r ffordd..."

Ffordd newydd wnaed yn Iesu Grist
I fyned heibio i uffern drist...

Williams Pantycelyn